# Hwyl wrth Ddarllen 2



# Cŵn

Tîm ADY Penodol / ALN (specific) Team

Tîm ADYP

Pecyn Darllen Anifeiliaid

Gweithgareddau i rannu gyda'ch plentyn - fesul dipyn bach bob dydd. 'Does dim angen rhuthro drwy'r pecyn.

Cofiwch gadw'r gweithgareddau yn hwyliog ac ysgafn fel nad oes laru ar y "gwaith".

Y darn darllen

Darllenwch GYDA'ch plentyn i ddechrau—wedyn y plentyn i ddarllen ar ben ei hun lle bo hyn yn bosib..

Os mae'r tesun yn rhy anodd— gall eich plentyn "smalio bod yn athro" a phwyntio at y geiriau i chi eu darllen.

Stopiwch ar ôl pob brawddeg a MEDDWL am yr ystyr.

EGLURWCH geiriau newydd.

Ydy eich plentyn yn gallu ail-adrodd y testun yng ngeiriau ei hun?

Gofyn ac ateb cwestiynau ar y diwedd: ydy eich plentyn yn gallu meddwl am gwestiynau i ofyn? (sgil anodd!)

Dylid ail- ddarllen y testun bob hyn a hyn i hybu hyder eich plentyn. Defnyddiwch leisiau gwahanol, doniol ac annog eich plentyn i wneud hefyd — hwyl , hwyl , hwyl!

Nid oes raid printio neu gwblhau pob tudalen— croeso i chwi ddewis a dethol yn ôl diddordeb a gallu eich plentyn.

Gweithgareddau ychwanegol :

- Ymchwilio gwybodaeth am yr anifail arlein; clipiau fideo ; cwis arlein
- Celf a chrefft— masgiau neu pyped anifail; tynnu llun/ paentio'r anifail . Mae digon o syniadau ar lein—"How to draw a carton cat"; origami ; dylunio cartref i'r anifail ; papier machê neu clai / toes blawd
- Creu llyfr prosiect / poster
- Eisio creu siâp yr anifail allan o flociau / lego/ botymau / pasta
- Creu gêm pâr efo'r lluniau gair a llun—angen printio ddwywaith a gludo ar gardyn; rhoi'r cardiau mewn rhes , wyneb i waered—fedr eich plentyn gofio'r drefn? Fedrwch chi?!

Mae'r syniadau'n ddi-ri! Rhannwch efo rhieni eraill sydd â diddordeb!

# Cŵn

Mamal yw ci.

Mae cŵn yn perthyn i'r un teulu â'r blaidd a'r llwynog

Maen nhw'n byw ledled y byd. Rhai yn anifeiliaid anwes, eraill yn wyllt.

Maen nhw'n gallu cyfarth a brathu. Maen nhw'n gallu clywed ac arogli'n dda.



Mae gan gŵn ffwr hir neu cwta.

Mae gan gŵn ddannedd miniog.

Mae cŵn yn cael eu defnyddio i hela, i gael hyd i bobl ac i helpu pobl dall.

Mae cŵn yn bwyta cig a bisgedi.

Wyddoch chi?

Mae rhai cŵn yn gallu arogli pan mae person yn sâl

Deall geiriau / gêm pâr / cofio'r lluniau mewn trefn

## cŵn




## hela



## miniog




## cyfarth




## ffwr




## arogli



Beth yw swyddogaeth y cŵn ?  Beth am greu poster i ddangos sut mae cwn yn ein helpu?











**Geirfa**

hela / hel

cael hyd i

achub

cysuro

arwain

amddiffyn

ymosod

casglu

tynnu

Tîm ADYP

Beth yw swyddogaeth y cŵn ? Beth am greu poster i ddangos sut mae cwn yn ein helpu?











## Geirfa

hela / hel

cael hyd i

achub

cysuro

arwain

amddiffyn

ymosod

casglu


tynnu

*Tîm ADYP*

Gwir neu gau? Gallwch dorri'r cardiau a'u darllen efo'ch plentyn. Y plentyn i benderfynu os yw'r frawddeg yn wir neu ddim a'i rhoi yn y gist gywir. Gal rai o'r brawddegau ffitio i'r ddau gist !

| | | |
|---|---|---|
| Mae cŵn yn bwyta cig. | Mae cŵn yn bwyta ffrwythau. | Mae pob ci yn anifail anwes. |
| Mae'r blaidd yn perthyn i deulu'r ci. | Mae'r ci yn perthyn i deulu'r gath. | Mae cŵn yn byw yn byw ledled y byd. |
| Dim ond yng Nghymru mae cŵn yn byw. | Mae gan gŵn ddannedd miniog. | Mae cŵn yn gallu cyfarth. |
| Mae cŵn yn beryglus. | Mae cŵn yn hela. | Mamal yw'r ci. |


Gwir



Gau

# HOW TO DRAW DOGS


With your favorite Crayola® Dry-Erase Marker, follow the steps below and learn how to draw a dog!




1. Lightly draw a circle and an oval with lines connecting the tops and bottoms.




2. Add legs from the bottom of the circles.



3. Add a neck and oval head for your dog. Make sure the head is in proportion to the dog's body.



4. Add details to the dog, including a tail, ear, eye, nose, and mouth.




Tim ADYP

Map meddwl i helpu eich plentyn  gynllunio neu gofnodi darn o waith. Nid oes angen brawddegau llawn , dim ond nodiadau.
Mae lluniau yn dderbyniol os nid yw ysgrifennu'n hawdd i'ch plentyn. Trefnu meddyliau yw'r nôd!

**Beth yw ci?** Anifail
(mamal? aderyn ? pysgodyn?)

Pa anifeiliaid eraill sy'n debyg i'r ci?

Ble  mae cŵn yn byw?



Beth arall fedri di ddweud am gŵn?

Beth sydd gan y ci? *Cynffon etc*

Beth mae cŵn yn  gallu  gwneud?

Beth mae cŵn yn  bwyta?

*Tîm ADYP*

Darllenwch y geiriau i ddechrau. Ydy'ch plentyn yn deall y geiriau? Fedr eich plentyn egluro ystyr y geiriau (anodd!) Fedrwch chi feddwl am frawddeg yn cynnwys y gair?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| h | e | l | a | c | w | n | c | j | o |
| h | y | a | s | k | k | v | w | a | c |
| f | y | f | f | w | r | a | y | c | m |
| k | s | r | t | s | r | a | k | o | r |
| q | g | j | e | v | v | p | m | f | h |
| c | y | f | a | r | t | h | j | r | n |
| a | r | o | g | l | i | m | u | u | b |
| m | i | n | i | o | g | k | x | h | v |
| j | m | h | v | f | s | e | y | q | t |
| l | k | p | j | t | w | s | r | k | q |

**cŵn**

**hela**

**miniog**

**arogli**

**ffwr**

**cyfarth**




Gallwch dorri'r cardiau i adeiladu brawddegau a'u darllen efo'ch plentyn. Y plentyn i benderfynu os yw'r frawddeg yn gwneud synnwyr!

| | | |
|---|---|---|
| 1<br>Mae cŵn | **2**<br>yn bwyta | 3<br>cig. |
| 1<br>Mae cŵn | 2<br>yn hoffi | 3<br>bananas. |
| 1<br>Mae cŵn | **2**<br>yn byw ledled | 3<br>y byd. |
| 1<br>Mae cŵn | **2**<br>yn perthyn i'r | 3<br>blaidd. |
| 1<br>Mae cŵn | **2**<br>yn hela | 3<br>anifeilaid eraill . |

Cofiwch ysgrifennu mewn prif-lythrennau!






**2.** GOFALWCH- MAE CWN YN ----

**4.** SŴN MAE CI YN EI WNEUD

**7.** ANIFAIL SY'N PERTHYN I'R CI

**8.** BLEW ANIFAIL

**1.** MAE RHAIN YN BYW YN EICH CEG!

**3.** MAE CWN YN SIGLO HWN PAN MAENT YN HAPUS




**5.** MAE CWN YN CNOI HWN

**6.** MYND AR ÔL ANIFAIL AM FWYD

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FFWR | BRATHU | BLAIDD | DANNEDD | HELA | ASGWRN | CYNFFON | CYFARTH |

*Tîm ADYP*

Ymchwlio i wahanol fathau o gŵn : HER! Fedrwch chi gael hyd i fath o gi i bob llythyren ? Defnyddiwch ddarn mawr o bapur sgrap.

| | | |
|---|---|---|
| A | Afghan hound |  |
| B | Boxer |  |
| C | Collie |  |

Tîm ADYP

## Her dysgu ar y cof!





Dau gi bach yn mynd i'r coed
esgid newydd ar bob troed
Dau gi bach yn dwad adre
wedi colli un o'u sgidiau


Dau gi bach yn mynd i'r coed
dan droi'u fferau, dan droi'u troed
Dwad adre hyd y pyllau
Blawd ac eisin hyd eu coesau

Dau gi bach a'u bron yn wyn
dau gi bach a'u llygaid syn
dau gi bach yn dal i sbio
dau gi bach "Sut 'dachi heno?"




https://savedyouaspot.com/2019/01/16/5-benefits-for-children-learning-poetry-by-heart/






Tim ADYP


# Maze Game






# Lliwio









Tynnu llun




Dysgu tynnu llun



# Jig sô

sgiliau torri a gludo



Tîm ADYP

cymesuredd—gorffennwch y llun

LLAW DDE

LLAW CHWITH





creu masg

